**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Arfarnu'r Prif Weithredwr

**O bell drwy Microsoft Teams**

**Dydd Mawrth, 13 Hydref 2020 am 9.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | C A Holley | L R Jones |
| A S Lewis | C E Lloyd | I E Mann |
| J A Raynor | R C Stewart | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Phil Roberts | Prif Weithredwr |
| Adam Hill | Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Adnoddau |
| Adrian Chard | Rheolwr Adnoddau Dynol Strategol a Datblygu Sefydliadol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): M C Child

---

## 1 Ethol Cadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020-2021

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd R C Stewart yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

## 2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer y Flwyddyn Ddinesig 2020-2021

**Penderfynwyd** ethol y Cynghorydd A S Lewis yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2020-2021.

## 3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

## 4 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth Ariannol y Prif Weithredwr a gynhaliwyd ar 9 Medi 2019 fel cofnod cywir.

**5 Gwahardd y cyhoedd.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel y nodir ym mharagraffau gwahardd 12 ac 13 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas â'r eitem fusnes fel a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

**Penderfynwyd** gwahardd y cyhoedd.

**(Sesiwn Gaeëdig)**

**6 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Prif Weithredwr.**

Cyflwynodd y Prif Weithredwr adroddiad a amlinellodd ei berfformiad yn erbyn amcanion 2019-2020 y cytunwyd arnynt gan Bwyllgor Arfarnu a Chydnabyddiaeth y Prif Weithredwr ar 9 Medi 2019. Ar gyfer y cyfnod penodol rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2020.

Roedd themâu’r amcanion yn cynnwys y meysydd canlynol: Enw da, Ad-drefnu/Cydweithredu Llywodraeth Leol, Adfywio Dinasoedd, y Rhaglen Trawsnewid, y Gyllideb a Blaenoriaethau Corfforaethol.

Nododd y Prif Weithredwr yr amcanion arfaethedig y dylid eu gosod ar gyfer 2020-2021.

Ystyriodd y Pwyllgor ei berfformiad yn ystod 2019-2020 a'i amcanion arfaethedig ar gyfer 2020-2021 a gofynnodd nifer o gwestiynau. Gofynnwyd cwestiynau ynghylch yr amcanion amrywiol, meysydd pwnc a pherfformiad.

Penderfynodd y Pwyllgor ar amcanion y Prif Weithredwr ar gyfer 2020-2021 yn gyffredinol dan y themâu canlynol: Enw da, Ad-drefnu/Cydweithredu Llywodraeth Leol, Adfywio Dinasoedd, Rhaglen Trawsnewid, Cyllideb, Blaenoriaethau Corfforaethol ac Ymateb i COVID-19.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:

1) Roedd y Pwyllgor yn fodlon â pherfformiad y Prif Weithredwr yn erbyn amcanion 2019-2020.

2) Cytunodd y Pwyllgor ar amcanion y Prif Weithredwr ar gyfer 2020-2021.

**7 Adolygiad Blynyddol o Berfformiad y Dirprwy Prif Weithredwr.**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr adroddiad gwybodaeth a amlinellodd ei berfformiad rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2020. Rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr hyn yr oedd yn meddwl ei fod wedi'i gyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ystyriodd y Pwyllgor ei berfformiad a'r cyflawniadau hynny fel yr amlinellwyd.

Amlinellodd y Dirprwy Brif Weithredwr hefyd ei amcanion arfaethedig ar gyfer 2020-2021 a ystyriwyd gan y Pwyllgor.

Gofynnwyd i'r Prif Weithredwr ystyried sylwadau'r Pwyllgor wrth benderfynu ar amcanion 2020-2021 ar gyfer y Dirprwy Brif Weithredwr.

Daeth y cyfarfod I ben am 10.30 am

**Cadeirydd**